------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda – Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 26 Mehefin 2018

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Meriel Singleton**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddSafonau@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Ystyried adroddiadau gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

(09.30 – 10.30)

## 3 Adolygiad o'r Cod Ymddygiad

(10.30 – 11.00)

SoC(5)-14-18 Papur 1 – Comisiwn y Cynulliad – Adroddiad ar Ganlyniadau'r Holiadur Urddas a Pharch


Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad/ Standards of Conduct Committee
SoC(5)-14-18 P1

Eitem 3

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# Arolwg Urddas a Pharch:
# Adroddiad ar y canlyniadau

Mehefin 2018





www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Cysylltu@cynulliad.cymru**
Twitter: **@CynulliadCymru**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# **Arolwg Urddas a Pharch:** Adroddiad ar y canlyniadau

Mehefin 2018



www.cynulliad.cymru

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... 4

**Cyfranogiad** .......... 5

**Cwestiynau: Adran 1** .......... 6

**Cwestiynau: Adran 2** .......... 9

**Cwestiynau: Adran 3** .......... 12

# Cyflwyniad

## Yn eu datganiad diweddaru ar **16 Chwefror 2018**[1] , ail-ddatganodd y Llywydd, Cadeirydd ein Pwyllgor Safonau Ymddygiad ac arweinwyr y pleidiau eu hymrwymiad i "barhau i adeiladu ar y fframwaith sydd gennym ar waith er mwyn creu'r diwylliant cywir a sicrhau bod y polisïau, y gweithdrefnau a'r cymorth priodol ar gael yn hawdd i unrhyw un sydd am drafod ei bryderon ".

Pwysleisiwyd pwysigrwydd barn unigolion fel y gallai gyfrannu at waith parhaus ymchwiliad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, i sicrhau bod y Cynulliad yn creu'r awyrgylch cywir i alluogi pobl i drafod pryderon neu gwynion am ymddygiad.

Fel rhan o'r gwaith hwnnw, roeddem am gadarnhau a oeddem yn cynllunio'n briodol ac edrych ar brofiadau o ymddygiad amhriodol yn y Cynulliad, mewn swyddfeydd etholaethol neu mewn unrhyw le arall y mae unigolion yn ymgymryd â'u gwaith.

Cynhaliodd Comisiwn y Cynulliad arolwg dienw o Aelodau'r Cynulliad, Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a staff Comisiwn y Cynulliad. Agorodd yr arolwg ar-lein ar 19 Ebrill a daeth i ben ar 11 Mai 2018, gan roi ychydig dros dair wythnos i unigolion fynegi eu barn.

Gofynnwyd i gyfranogwyr a oeddent yn gweithio i Gomisiwn y Cynulliad, i Aelod Cynulliad neu grŵp gwleidyddol neu a oeddent yn Aelod Cynulliad.

[1] http://www.assembly.wales/cy/newhome/Pages/newsitem.aspx?itemid=1820

# Cyfranogiad

## Roedd yr arolwg ar gael i bob un o'r 60 Aelod Cynulliad, oddeutu 250 o Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a thua 450 o staff Comisiwn y Cynulliad.

Cafwyd 128 o ymatebion i ran gyntaf yr arolwg, sy'n cynrychioli cyfradd gyfranogi o 16.8% o'r rhai a wahoddwyd i gymryd rhan.

- Dywedodd 81 o ymatebwyr eu bod yn gweithio i Gomisiwn y Cynulliad (18.0% o staff Comisiwn y Cynulliad)
- Dywedodd 42 o ymatebwyr eu bod yn gweithio i Aelod Cynulliad neu grŵp gwleidyddol (16.8% o'r staff a oedd yn gweithio i Aelod Cynulliad neu grŵp gwleidyddol)
- Roedd pump o'r ymatebwyr yn Aelodau Cynulliad (8.3% o Aelodau'r Cynulliad).

Trwy gydol yr arolwg, gofynnwyd i gyfranogwyr sicrhau nad oeddent yn cynnwys unrhyw wybodaeth sensitif a allai ddatgelu pwy ydynt hwy neu rywun arall.

Rydym hefyd yn ymwybodol o'r nifer fach o Aelodau Cynulliad a gymerodd ran yn yr arolwg. Felly, nid yw'r wybodaeth ganlynol wedi'i rhannu'n grwpiau o gyfranogwyr.

# Cwestiynau: Adran 1

## Gwnaethom ofyn:

*Un o amcanion ein gwaith ar Urddas a Pharch yw sicrhau bod y broses o ddefnyddio'r weithdrefn gwyno neu drafod pryderon yn fwy eglur a hygyrch i unrhyw un sydd am wneud hynny. Bydd y materion hyn yn cael eu hegluro ar ein gwefan.*

*Fodd bynnag, ar yr adeg hon, hoffem wybod a ydych yn gwybod sut i gael cyngor neu roi gwybod am ymddygiad amhriodol?*

## Dywedodd ymatebwyr:

Atebodd 120 o'r 128 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Dywedodd dros hanner ohonynt (55.8%) eu bod yn gwybod sut i gael cyngor neu roi gwybod am ymddygiad amhriodol.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **Ydw** | 67 | 55.8 |
| **Nid wyf yn siŵr** | 36 | 30.0 |
| **Nac ydw** | 17 | 14.2 |
| **CYFANSWM** | 120 | 100.0 |

## Gwnaethom ofyn:

*Yn ystod y broses ymgynghori, daeth nifer o awgrymiadau i law ynghylch cryfhau polisi ac ymarfer. Roedd y rhain yn cynnwys:*

- *gwell hygyrchedd o ran y polisïau a'r gweithdrefnau*
- *sicrhau bod rhywun ar gael i gynnal sgwrs gyfrinachol am bryderon, a gwneud hynny heb wneud cwyn*
- *sicrhau mwy o eglurder ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael i'r rhai sy'n gwneud cwynion a'r rhai y gwnaed honiadau yn eu herbyn*
- *sicrhau bod mesurau ychwanegol i ddiogelu rhag ymddygiad amhriodol y rhai sy'n defnyddio ein hadeiladau at ddibenion gwaith*
- *gwella'r broses o godi ymwybyddiaeth yn ystod cyfnod cynefino pawb ac yn barhaus*

*Bydd yr holl fesurau hyn yn cael eu cynnwys yn y trefniadau diwygiedig. Fodd bynnag, hoffem gael eich barn ar unrhyw welliannau eraill y gallem eu gwneud. Darperir blwch testun gwag isod. Gwnewch yn siŵr nad ydych yn nodi unrhyw wybodaeth sensitif a allai ddatgelu pwy ydych chi neu rywun arall.*

## Dywedodd ymatebwyr:

Gwnaed 32 o sylwadau. Yn ogystal â sylwadau'n croesawu'r ymagwedd gynhwysol ac ymgynghorol a gymerir tuag at y gwelliannau arfaethedig, mae'r ymatebion wedi'u grwpio i'r themâu canlynol:

**Cynefino a datblygiad proffesiynol parhaus**
Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys gwella'r cymorth i reolwyr llinell ddatrys problemau'n gynnar; rheoli perfformiad rhagweithiol a hyfforddiant cysylltiedig; hyfforddiant gorfodol i gynnwys sesiynau ymwybyddiaeth yn ystod y cyfnod cynefino yn ogystal ag ar gyfer staff presennol. Darparu hyfforddiant diweddaru rheolaidd - gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad. Sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o'u hawliau. Rhoi grym i unigolion ddatrys problemau'n anffurfiol lle mae hynny'n bosibl.

**Cyfathrebu mewnol**
Atgyfnerthu polisïau, ymgorffori'r gwelliannau sy'n cael eu rhoi ar waith, meddwl am ffyrdd newydd eraill o hyrwyddo'r diwylliant e.e. hysbysiadau ar slipiau cyflog, posteri a sicrhau bod momentwm yn cael ei gynnal.

**Eglurder**
Sicrhau bod polisïau a pholisïau Adnoddau Dynol cysylltiedig yn glir, eu bod yn cael eu dilyn yn gyson, a'u bod yn gyson ac yn gyfoes; bod ffyrdd o wneud cwyn yn parhau i fod yn hygyrch ac yn ddealladwy i'r rhai sy'n meddwl gwneud hynny.

**Swyddogion Cyswllt**
Yn gyffredinol, fe'u croesewir gan fod hyn yn darparu cam cynghori cyfrinachol heb ymrwymo i wneud cwyn ffurfiol. Mae'n bwysig bod Swyddogion Cyswllt yn gallu cynnal sgyrsiau cyfrinachol yn Gymraeg. Cafwyd awgrym y dylai Swyddogion Cyswllt fod yn annibynnol o'r Cynulliad.

**Posteri**
Croesawyd y rhain gan eu bod yn rhoi cyfle i unigolion ystyried y wybodaeth pan nad ydynt wrth eu desgiau.

# Cwestiynau: Adran 2

## Yn yr adran hon, gofynnwyd am brofiadau unigolion ac a oeddent wedi profi ymddygiad amhriodol yn bersonol.

Dilynodd y tri chwestiwn cyntaf batrwm arolwg y gwasanaeth sifil cyfan, a oedd yn ein galluogi i feincnodi yn erbyn carfan ehangach o gyfranogwyr. Nod y cwestiynau oedd cadarnhau a oedd unigolion wedi cael profiad, wedi bod yn dyst neu wedi cael eu cyhuddo o ymddygiad amhriodol.

### Gwnaethom ofyn:

*A ydych chi erioed **wedi cael profiad** o ymddygiad amhriodol tra'n gweithio i Gomisiwn y Cynulliad neu i Aelod / Grŵp yn y Cynulliad fel aelod o staff cymorth yr Aelodau*?

### Dywedodd ymatebwyr:

Atebodd 112 o'r 128 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Dywedodd dros tair ran o bump (61.6%) nad oeddent ***wedi cael profiad*** o ymddygiad amhriodol tra'n gweithio i Gomisiwn y Cynulliad neu i Aelod / Grŵp yn y Cynulliad fel aelod o staff cymorth yr Aelodau.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **Nac ydw, erioed.** | 69 | 61.6 |
| **Ydw, ar sawl achlysur.** | 32 | 28.6 |
| **Byddai'n well gennyf beidio â dweud.** | 6 | 5.4 |
| **Ydw, unwaith.** | 5 | 4.4 |
| **CYFANSWM** | 112 | 100.0 |

## Gwnaethom ofyn:

*A ydych chi erioed **wedi bod yn dyst i** ddigwyddiad o ymddygiad amhriodol tra'n gweithio i Gomisiwn y Cynulliad neu i Aelod / Grŵp yn y Cynulliad fel aelod o staff cymorth yr Aelodau?*

## Dywedodd ymatebwyr:

Atebodd 109 o'r 128 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Dywedodd dros hanner ohonynt (54.1%) nad oeddent erioed ***wedi bod yn dyst i*** ddigwyddiad o ymddygiad amhriodol tra'n gweithio i Gomisiwn y Cynulliad neu i Aelod / Grŵp yn y Cynulliad fel aelod o staff cymorth yr Aelodau.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **Nac ydw, erioed.** | 59 | 54.1 |
| **Ydw, ar sawl achlysur.** | 29 | 26.6 |
| **Ydw, unwaith.** | 13 | 11.9 |
| **Byddai'n well gennyf beidio â dweud.** | 8 | 7.3 |
| **CYFANSWM** | 109 | 100.0 |

## Gwnaethom ofyn:

*A ydych erioed wedi cael **eich cyhuddo** o ymddwyn yn amhriodol??*

## Dywedodd ymatebwyr:

Atebodd 105 o'r 128 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Dywedodd y rhan fwyaf ohonynt (95.2%) nad oeddent erioed wedi cael ***eu cyhuddo*** o ymddwyn yn amhriodol tra'n gweithio i Gomisiwn y Cynulliad neu i Aelod / Grŵp yn y Cynulliad fel aelod o staff cymorth yr Aelodau.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **Nac ydw, erioed** | 100 | 95.2 |
| **Ydw.** | 5 | 4.8 |
| **Byddai'n well gennyf beidio â dweud** | 0 | 0.0 |
| **CYFANSWM** | 105 | 100.0 |

## Gwnaethom ofyn:

*Os ydych wedi cael profiad o ymddygiad amhriodol neu wedi bod yn dyst i ddigwyddid o ymddygiad amhriodol, ond heb roi gwybod am hyn, nodwch pam.*

## Dywedodd ymatebwyr:

Cafwyd 37 o sylwadau. Mae'r rhain wedi'u grwpio i'r themâu canlynol:

**Ymddiriedaeth yn y broses**
Roedd y gŵyn yn erbyn swyddog uwch neu Aelod Cynulliad ac ymddiriedaeth a fyddai'r sefydliad yn ochri â hwy; byddai rhoi gwybod am ymddygiad amhriodol yn cael effaith ar yrfa; pryder ynghylch a fyddai'r gŵyn yn cael ei thrin yn briodol, yn deg neu'n cael ei chymryd o ddifrif; profiad blaenorol o ychydig yn cael ei wneud i fynd i'r afael â digwyddiadau neu ddiffyg gweithredu ar broblemau. Mae'n haws peidio â rhoi gwybod am ddigwyddiadau oherwydd y straen sydd ynghlwm â hyn.

**Gwybodaeth**
Ddim yn gwybod sut i wneud cwyn.

**Datrysiad anffurfiol**
Problemau wedi'u datrys yn anffurfiol; ni theimlwyd eu bod yn ddigon drwg i roi gwybod amdanynt; nid oedd y broblem yn ymddangos yn fwriadol.

# Cwestiynau: Adran 3

Roedd rhan olaf yr arolwg yn gwbl ddewisol ac yn rhoi cyfle i rannu ychydig mwy o wybodaeth am brofiadau personol o fwlio, aflonyddu neu unrhyw fathau eraill o ymddygiad amhriodol. Gofynnwyd a oedd y cyfranogwyr wedi bod yn dyst i ddigwyddiad o ymddygiad amhriodol, wedi cael eu cyhuddo o ymddwyn yn amhriodol, neu a oeddent wedi darparu cefnogaeth i rywun e.e. fel rheolwr llinell, cynrychiolydd undeb llafur neu gydweithiwr.

Roedd y cwestiynau hyn eto'n dilyn patrwm arolwg y gwasanaeth sifil cyfan a oedd yn ein galluogi i feincnodi yn erbyn carfan ehangach o gyfranogwyr.

Rhoddwyd cyfle i gyfranogwyr fwrw ymlaen â'r arolwg neu i fynd i'r diwedd.

Fel cydnabyddiaeth o'r ffaith y gall fod yn anodd gofyn cwestiynau am brofiadau personol, atgoffwyd pawb a oedd yn cymryd rhan o'r amrywiaeth o gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

- Aeth 74 ymlaen i ddiwedd yr arolwg.
- Atebodd 54 y cwestiynau canlynol.

## Gwnaethom ofyn:

*O ran ymddygiad amhriodol, pa rai o'r sefyllfaoedd a ganlyn, os o gwbl, y mae gennych brofiad ohonynt (ticiwch bob un sy'n berthnasol).*

## Dywedodd ymatebwyr:

Atebodd 54 o ymatebwyr y cwestiwn amlddewis hwn.

| Cwestiwn | Responses |
|---|---|
| **Rwyf wedi bod yn destun ymddygiad amhriodol** | 27 |
| **Rwyf wedi bod yn dyst i ddigwyddiad(au) o ymddygiad amhriodol** | 24 |
| **Rwyf wedi bod yn rheolwr llinell ar rywun sydd wedi bod yn destun ymddygiad amhriodol** | 6 |
| **Rwyf wedi bod yn rheolwr llinell ar rywun sydd wedi cael ei gyhuddo/chyhuddo o ymddwyn yn amhriodol** | 6 |
| **Rwyf wedi cael fy nghyhuddo o ymddwyn yn amhriodol** | 4 |
| **Rwyf wedi bod yn gynrychiolydd Undeb yn cefnogi rhywun sydd wedi bod yn destun ymddygiad amhriodol** | 3 |
| **Rwyf wedi bod yn gynrychiolydd Undeb yn cefnogi rhywun sydd wedi cael ei gyhuddo/chyhuddo o ymddwyn yn amhriodol** | 1 |
| **Arall (nodwch y manylion, ond peidiwch â nodi unrhyw wybodaeth sensitif a allai ddatgelu pwy ydych chi neu rywun arall)**<br>Er bod llawer o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn wedi nodi 'Dim' neu 'Ddim yn berthnasol', mae'r sylwadau sy'n weddill wedi'u grwpio fel a ganlyn:<br>▪ sylwadau wedi'u cymryd yn y ffordd anghywir ond wedi'u herio<br>▪ cymorth i'r aelod o staff a oedd wedi bod yn dyst i ddigwyddiad ac wedi rhoi gwybod amdano<br>▪ gwybodaeth a rennir gan drydydd partïon am achosion neu am sefyllfaoedd penodol y clywyd amdanynt | 16 |

## Gwnaethom ofyn:

*Yn seiliedig ar brofiadau'r cyfranogwyr, a fyddent yn cytuno bod y sawl a oedd **yn destun** ymddygiad amhriodol wedi cael triniaeth deg ar ôl adrodd hanes y digwyddiad(au) ac wedi cael lefel dda o gymorth ar ôl adrodd hanes y digwyddiad(au).*

## Dywedodd ymatebwyr:

Atebodd 48 a 47 o gyfranogwyr y ddau gwestiwn hyn yn ôl eu trefn. Nododd dros dwy ran o dair o'r ymatebwyr 'Ddim yn gwybod' wrth ateb y ddau gwestiwn. Roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o gytuno i ryw raddau (25.0%) bod y rheini a oedd yn destun ymddygiad amhriodol wedi cael triniaeth deg ar ôl adrodd hanes digwyddiad. Ar y llaw arall, roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o anghytuno i ryw raddau (25.5%) bod y rheini a oedd yn destun ymddygiad amhriodol wedi cael lefel dda o gymorth ar ôl adrodd hanes digwyddiad.

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Wedi cael triniaeth deg ar ôl adrodd hanes y digwyddiad(au)** | 5 (10.42%) | 4 (8.33%) | 10 (20.83%) | 6 (12.50%) | 6 (12.50%) | 17 (35.42%) |
| **Wedi cael lefel dda o gymorth ar ôl adrodd hanes y digwyddiad(au)** | 4 (8.51%) | 8 (17.02%) | 6 (12.77%) | 5 (10.64%) | 5 (10.64%) | 19 (40.43%) |

Rhoddwyd cyfle i gyfranogwyr esbonio eu hatebion. Mae'r 18 sylw wedi'u grwpio i themâu cyffredinol:

**Adrodd:** Dywedodd nifer o gyfranogwyr na wnaethant roi gwybod am ddigwyddiad; ei fod wedi'i ddatrys yn lleol mewn trafodaeth; fod y mater wedi ei esgusodi fel digwyddiad unigol a mynegwyd pryder bod ymchwiliadau'n cymryd gormod o amser ac yn cynnwys pobl eraill.

**Adborth:** Ar ôl trosglwyddo pryderon am ymddygiad amhroffesiynol, ni chafwyd unrhyw adborth ar y camau a gymerwyd. Nid oedd y cyfranogwyr yn gwybod a oedd unigolion yn cael triniaeth deg neu'n cael lefel dda o gymorth.

**Gwybodaeth:** Diffyg gwybodaeth ynglŷn â beth i roi gwybod amdano a sut i wneud hynny.

## Gwnaethom ofyn:

*Yn seiliedig ar brofiadau'r cyfranogwyr, a fyddent yn cytuno bod y sawl a gafodd ei **gyhuddo/chyhuddo** o ymddwyn yn amhriodol wedi cael triniaeth deg ac a oeddent wedi cael lefel dda o gymorth.*

## Dywedodd ymatebwyr:

Atebodd 47 y rhan hon o'r arolwg. Nododd dros 40% o'r ymatebwyr 'Ddim yn gwybod' wrth ateb y ddau gwestiwn. Roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o anghytuno i ryw raddau (14.9%) bod y rheini a gyhuddwyd o ymddwyn yn amhriodol wedi cael triniaeth deg ar ôl adrodd hanes digwyddiad. Yn yr un modd, roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o anghytuno i ryw raddau (19.2%) bod y rheini a gyhuddwyd o ymddwyn yn amhriodol wedi cael lefel dda o gymorth ar ôl adrodd hanes digwyddiad.

| | Anghytuno'n gryf | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cytuno | Cytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Wedi cael triniaeth deg ar ôl i hanes y digwyddiad(au) gael ei adrodd** | 5 (10.64%) | 2 (4.26%) | 14 (29.79%) | 2 (4.26%) | 4 (8.51%) | 20 (42.55%) |
| **Wedi cael lefel dda o gymorth ar ôl i hanes y digwyddiad(au) gael ei adrodd** | 6 (12.77%) | 3 (6.38%) | 11 (23.40%) | 2 (4.26%) | 4 (8.51%) | 21 (44.68%) |

Rhoddwyd cyfle i gyfranogwyr esbonio eu hatebion. Mae'r 14 sylw wedi'u grwpio i themâu cyffredinol:

- Ni ddarparwyd cymorth digonol.
- Cafodd y sawl a gyhuddwyd ei drin yn well na'r achwynydd; roedd y cymorth wedi'i anelu tuag at amddiffyn uwch aelodau o staff yn hytrach na'r achwynydd.
- Gwnaed honiadau drwy'r cyfryngau ac ni roddwyd yr hawl priodol i ateb.

## Gwnaethom ofyn:

Gofynnwyd a oedd unrhyw bwyntiau ychwanegol yr hoffai'r cyfranogwyr eu gwneud.

## Dywedodd ymatebwyr:

Gwnaed 22 o sylwadau ac mae'r rhain wedi'u grwpio i themâu:

**Diwylliant**
Mae wedi gwella a chroesewir mwy o eglurder ac amlygu'r gweithdrefnau. Roedd gan rai hyder yn y sefydliad yn seiliedig ar brofiadau mewn mannau eraill a theimlwyd fod hwn yn amgylchedd diogel a bod y Cynulliad yn gofalu am bobl sy'n gweithio yma. Dangoswyd lefel uchel o ymddygiadau proffesiynol. Mae angen gwneud mwy i feithrin hyder mewn gweithdrefnau. Mae angen i'r gwaith yr ydym yn ei wneud fod yn ystyrlon.

**Gweithdrefnau**
Dylai defnyddio gweithdrefnau ffurfiol fod yn ddewis olaf; lle mae hynny'n bosib, dylid ceisio datrys problemau'n anffurfiol. Dylid defnyddio systemau Rheoli Perfformiad yn fwy effeithiol.

**Gwleidyddion / Uwch aelodau o staff**
Roedd canfyddiad bod rhai gwleidyddion neu uwch aelodau o staff yn ymddwyn yn afresymol ac esgusodir hyn yn hytrach na mynd i'r afael â'r mater. Mae'n anodd rhoi gwybod am ddigwyddiad os yw person mewn cadwyn rheoli llinell.